The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) – Adrannau 91 i 93**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Agendâu ar gyfer Gwrandawiad Mater Penodol 3 (ISH3) ar Faterion Amgylcheddol a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft, yn ogystal â materion a drafodwyd yn ISH 1 a 2; Gwrandawiad Caffael Gorfodol 2 (CAH2); a'r Gwranadwiad Llawr Agored (OFH1)**

Rhoddwyd gwybod am y dyddiad, yr amser, y lleoliad a'r cyfarwyddiadau presenoldeb ar gyfer y gwrandawiadau canlynol yn llythyr Rheol 8(3) a 13 yr Awdurdod Archwilio (ExA) dyddiedig 18 Gorffennaf 2023:

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad Mater Penodol 3 (ISH3)**<br><br>Materion amgylcheddol a'r DCO | **Dydd Mercher**<br>**9 Awst 2023**<br>**Gwrandawiad yn Dechrau am 9.30am**<br><br>Bydd modd cofrestru a chael sedd yn y lleoliad o 9.00am ymlaen a bydd y Broses Gofrestru rithwir yn agor am 9am | **The Crowne Plaza,**<br>**Trinity Street,**<br>**Caer CH1 2BD**<br><br>ac<br><br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br><br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu ar y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru o flaen llaw. |

Bydd y gwrandawiad uchod yn ystyried Materion Amgylcheddol a'r DCO mewn un gwrandawiad a gynhelir fel un digwyddiad rhithwir, felly mae'r amserau dechrau ar gyfer y ddau wrandawiad yr un peth. Yn flaenorol, cynhaliwyd gwrandawiadau ar Faterion Amgylcheddol a'r DCO fel digwyddiadau ar wahân (ISH1 (Materion Amgylcheddol) ([EV-008] i [EV-013] yn gynwysedig) ac ISH2 (DCO) ([EV-020] i [EV-026] yn gynwysedig)). Cynhelir un Gynhadledd Drefniadau am 9:30am ar gyfer elfennau Materion Amgylcheddol a DCO y gwrandawiad, a bydd modd ymuno â'r gwrandawiad trwy un set o gyfarwyddiadau ymuno a roddir i bartïon sydd wedi cofrestru i fynychu yn unol â'r wybodaeth a amlinellir ymhellach isod.

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Gwrandawiad Caffael Gorfodol 2 (CAH2)** | **Dydd Iau<br>10 Awst 2023<br>Gwrandawiad yn Dechrau am 9.30am**<br><br>Bydd modd cofrestru a chael sedd yn y lleoliad o 9.00am ymlaen a bydd y Broses Gofrestru rithwir yn agor am 9am | **The Crowne Plaza,<br>Trinity Street,<br>Caer CH1 2BD**<br><br>ac<br><br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br><br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu ar y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru o flaen llaw. |
| **Gwrandawiad Llawr Agored (OFH1)** | **Dydd Iau<br>10 Awst 2023<br>Gwrandawiad yn Dechrau am 2.00am**<br><br>Bydd modd cofrestru a chael sedd yn y lleoliad o 1.30am ymlaen a bydd y Broses Gofrestru rithwir yn agor am 1.30pm | **The Crowne Plaza,<br>Trinity Street,<br>Caer CH1 2BD**<br><br>ac<br><br>yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br><br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu ar y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru o flaen llaw. |

Amlinellir yr agendâu ar gyfer y gwrandawiadau yn Atodiad A, Atodiad B, ac Atodiad C y ddogfen hon, yn ôl eu trefn.

**Dyddiadau Gwrandawiad Wrth Gefn**

Bwriadwn ymdrin â'r holl faterion angenrheidiol fel y'u hamlinellir uchod. Fodd bynnag, hysbysir am ddyddiadau wrth gefn hefyd. Byddai'r rhain yn cael eu defnyddio dim ond os bydd materion technegol yn tarfu ar ISH3, CAH2 neu OFH1 a/neu os byddant yn rhedeg yn hwyr. Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn ISH3, CAH2 ac OFH1 sicrhau eu bod ar gael ar gyfer yr holl ddyddiadau a restrir uchod ac isod.

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Os bydd angen,**<br>• **ISH3** (Gwrandawiadau ynglŷn â Materion Amgylcheddol a'r | **Dydd Gwener<br>11 Awst 2023<br>Gwrandawiad yn Dechrau am 9.30am** | **The Crowne Plaza,<br>Trinity Street,<br>Caer CH1 2BD**<br><br>ac |

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| DCO);<br>• **CAH2**; ac<br>• **OFH**) | Bydd modd cofrestru a chael sedd yn y lleoliad o 9.00am ymlaen a bydd y Broses Gofrestru rithwir yn agor am 9am | yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams<br><br>Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu ar y ffôn yn cael eu rhoi o flaen llaw i'r rhai sydd wedi cofrestru o flaen llaw. |

Gallai Gwrandawiadau Wrth Gefn nad oes eu hangen gael eu canslo yn ystod OFH, ISH3 neu CAH2 neu ar faner gwefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio[1] ac nid oes angen rhoi hysbysiad arall.

**Diben y gwrandawiadau**

Diben ISH3 yw galluogi unrhyw Bartïon â Buddiant Ychwanegol a/neu Unigolion Ychwanegol yr Effeithir Arnynt, sy'n deillio o Geisiadau i Wneud Newidiadau (CR) yr Ymgeisydd dyddiedig 27 Mawrth 2023 (CR1), 26 Mai 2023 (CR2) a 4 Gorffennaf 2023 (CR3), i wneud sylwadau llafar ar faterion a drafodwyd yn yr ISHs canlynol a gynhaliwyd yn flaenorol:

Cynhaliwyd ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023.

• ISH1 ar Faterion amgylcheddol.

Cynhaliwyd ddydd Iau 19 Ionawr 2023

• ISH2 ar y DCO drafft

Diben CAH2 yw galluogi unrhyw Unigolyn yr Effeithir Arno a/neu Barti â Buddiant i wneud sylwadau llafar ar y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau ychwanegol dros dir yn orfodol a amlinellir yn CRs yr Ymgeisydd dyddiedig 27 Mawrth 2023 (CR1), 26 Mai 2023 (CR2) a 4 Gorffennaf 2023 (CR3), a galluogi unrhyw Bartïon â Buddiant Ychwanegol i wneud sylwadau llafar ar faterion yn ymwneud â'r cynnig i gaffael tir/ hawliau yn orfodol yn gyffredinol yn ychwanegol at y rhai hynny a drafodwyd yn flaenorol yn y CAH1 a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Mehefin 2023.

Nid yw OFH1 yn ymwneud â mater penodol. Fodd bynnag, gofynnir i'r rhai sy'n dymuno cael eu clywed ar lafar yn rhan o OFH1 nodi na fydd angen ailadrodd cyflwyniadau a wnaed eisoes ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Mae'r recordiadau fideo a'r trawsgrifiadau o'r holl wrandawiadau a gynhaliwyd yn

---

[1] Gweler tudalen y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/piblinell-carbon-deuocsid-hynet-north-west/

flaenorol ar gael o dan y tab 'Dogfennau' ar dudalen we'r prosiect, fel yr amlinellir yn nhroednodyn 1, gan ddefnyddio ein cyfeirnodau [EV-008] i [EV-026], yn gynwysedig.

**Presenoldeb yn y gwrandawiadau**

Byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fynychu'r gwrandawiadau hyn:

• Yr Ymgeisydd.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na fydd partïon eraill yn gallu cyfrannu. Gwahoddir yr holl Bartïon â Buddiant i fynychu a gwneud sylwadau llafar ar y materion a amlinellir yn yr agenda, yn amodol ar allu'r ExA i reoli'r gwrandawiad.

| |
|---|
| Dylai unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan yn y gwrandawiadau nad yw eisoes wedi rhoi gwybod i'r Tîm Achos wneud hynny cyn gynted â phosibl. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallech gofrestru erbyn dydd Mawrth 8 Awst 2023 fan bellaf. Anfonwch neges e-bost at: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk i gadarnhau y byddwch yn bresennol a darparwch yr holl wybodaeth y gofynnir amdani ar Dudalen 6 llythyr Rheol 8(3) yr ExA dyddiedig 18 Gorffennaf 2023 [PD-026]. |

**Cymryd rhan mewn gwrandawiad rhithwir**

Bydd partïon sydd wedi cofrestru i fynychu unrhyw un o'r gwrandawiadau yn cael neges e-bost ychydig cyn y gwrandawiadau yn cynnwys dolen ymuno, rhif ffôn a chyfarwyddiadau i'w galluogi i gymryd rhan yn rhithwir. Ymunwch â'r Gynhadledd Drefniadau'n brydlon, os gwelwch yn dda. Bydd y Tîm Achos yn eich derbyn o'r cyntedd rhithwir ac yn cofrestru eich presenoldeb. Mae'r Gynhadledd Drefniadau'n rhoi cyfle i esbonio'r gweithdrefnau a bydd yn galluogi'r gwrandawiadau i ddechrau'n brydlon.

Bydd y digwyddiad yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio hefyd, a bydd dolen i wylio'r ffrwd fyw yn cael ei chyhoeddi ar dudalen we'r prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, y mae ei manylion wedi'u hamlinellu yn nhroednodyn 1 uchod, yn agosach i ddyddiad y digwyddiad.

**Y weithdrefn yn y gwrandawiadau**

Mae canllawiau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn darparu mai'r ExA sydd i holi, profi ac asesu'r dystiolaeth trwy ofyn cwestiynau uniongyrchol i unigolion sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawiadau. Bydd yr holi yn y gwrandawiadau'n cael ei arwain gan yr ExA. Caniateir i unigolyn sy'n rhoi tystiolaeth gael ei groesholi gan unigolyn arall dim ond os yw'r ExA yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod sylwadau'n cael eu profi'n ddigonol neu fod Parti â Buddiant wedi cael cyfle teg i gyflwyno ei achos.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y materion yn cael eu trafod ar y diwrnod a drefnwyd. Bydd y gwrandawiadau'n gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn ystyried bod pawb sy'n bresennol wedi cael dweud eu dweud a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw. Os oes materion ychwanegol i'w trin neu gyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser mewn unrhyw wrandawiad, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a gohirio rhai eraill i gwestiynau ysgrifenedig.

Canllaw yn unig yw'r agendâu. Nid ydynt wedi'u dylunio i fod yn neilltuedig nac yn gynhwysfawr. Caiff yr ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried a newid y drefn ar gyfer ystyried materion, a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater i sicrhau bod modd eu hystyried yn briodol. Os na fydd mater penodol yn cael ei drafod mewn gwrandawiad, nid yw hynny'n atal y mater hwnnw rhag cael ei archwilio ymhellach, gan gynnwys gofyn cwestiynau ysgrifenedig ychwanegol.

Hoffem dynnu eich sylw at Derfyn Amser 7 yn Amserlen yr Archwiliad (dydd Mawrth 5 Medi 2023) a'n cais i dderbyn crynodebau o'r holl gyflwyniadau llafar a roddir yn y gwrandawiadau hyn erbyn y dyddiad hwnnw gan y rhai a'u cyflwynodd.

Cysylltwch â'r Tîm Achos os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y gwrandawiadau neu sut i gymryd rhan:

E-bost: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk.
Rhif ffôn: 0303 444 5000

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 91**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Agenda ar gyfer Gwrandawiad Mater Penodol (ISH) 3 Gwrandawiad ar Faterion Amgylcheddol a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) a materion a drafodwyd yn ISH 1 a 2**

1. **Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

2. **Cais/Ceisiadau i Wneud Newidiadau (CR) fel y bo'n berthnasol i ISH3**

Yn unol â Rheoliad 14(2) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010, bydd yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn rhoi cyfle i unrhyw Barti â Buddiant Ychwanegol neu Unigolyn Ychwanegol yr Effeithir Arno, o ganlyniad i'r CRs a dderbyniwyd a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd i ddiwygio ei gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, wneud sylwadau llafar ar y materion a drafodwyd yn flaenorol yn ISH 1 i 2.

3. **Yr Amgylchedd Dŵr/y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)/ Materion Tirwedd a Dylunio/ Ymatebion eraill i Gwestiynau Ysgrifenedig 2 yr ExA**

*Yr Amgylchedd Dŵr – Opsiynau Croesi Nant Alltami*

Gwahoddir yr Ymgeisydd i:

- grynhoi'r arfarniad effaith hydrogeolegol o'r groesfan toriad agored yn Nant Alltami. Yna, gwahoddir Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ymateb i'r groesfan toriad agored hon fel llwybr posibl i ddŵr wyneb gael ei golli i'r tir/ gweithfeydd mwyngloddio halogedig; cyrsiau dŵr yn sychu i lawr yr afon/ dirywio corff dŵr Nant Gwepra. (Yna, bydd rhywfaint o drafodaeth/ cwestiynau gan yr ExA ynglŷn â'r WFD);

- cyflwyno ei achos heb ragfarn ar gyfer rhanddirymu ochr yn ochr â sut byddai'r groesfan bont wedi'i gorchuddio yn cael ei sicrhau'n ffurfiol yn y DCO;

- rhoi disgrifiad byr o unrhyw fesurau dylunio da sydd wedi'u cynnwys yn nyluniad y cynllun ar gyfer agweddau ar ben y tir y cynigion pont bibell wedi'i gorchuddio.

Yna, bydd yr ExA yn gwahodd trafodaeth ychwanegol ynglŷn â safbwyntiau CNC/ partïon â buddiant.

Ymatebion Cyngor Sir y Fflint (FCC) i bolisi 'Lletem Las' y cynllun lleol mewn perthynas â chroesfan wedi'i gorchuddio ar ben y tir. P'un a oes angen cyfiawnhad polisi ychwanegol.

4. **Bioamrywiaeth**

- *Budd Net i Fioamrywiaeth (BNG)/ Strategaeth Wella a Gyflwynwyd*
- Gofynnir i'r Ymgeisydd roi amlinelliad byr o'i sefyllfa ddiweddaraf o ran hwyluso BNG a gwelliannau/ buddion o ystyried polisi lleol a chenedlaethol a darpariaeth ddeddfwriaeth bresennol.
- Gofynnir i FCC/ Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer roi disgrifiad byr o'u safbwyntiau hyd yma.
- Trafodaeth/ cwestiynau gan yr ExA.
- Ystyried unrhyw addasiadau i'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol a'r Gofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol neu'r Gofynion DCO (os oes angen).

**5. Erthyglau ac Atodlenni'r DCO drafft**

Gofynnir i'r Ymgeisydd roi trosolwg byr iawn o sut mae'r CRs wedi arwain at newidiadau i'r DCO drafft. Yna, bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau fel y bo'n berthnasol gan geisio ymatebion, lle y bo'n briodol, gan yr Ymgeisydd, yr Awdurdodau Lleol a Phartïon eraill â Buddiant, sydd wedi cofrestru i siarad. Gwahoddir y Partïon â Buddiant hyn i ofyn cwestiynau eglurhad ynglŷn ag Erthyglau ac Atodlenni'r DCO hefyd.

**6. Atodlen 2 y DCO drafft – Gofynion**

Gofynnir i'r Ymgeisydd roi trosolwg o'r Gofynion, fel y'u diwygiwyd gan y CRs. Yna, bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau gan geisio ymatebion, lle y bo'n briodol, gan yr Ymgeisydd, yr Awdurdodau Lleol ac unrhyw Bartïon eraill â Buddiant sydd wedi cofrestru i siarad. Gwahoddir y Partïon â Buddiant hyn i ofyn cwestiynau eglurhad ynglŷn â gofynion y DCO drafft.

**7. Erthygl 44 y DCO drafft – Ardystio Cynlluniau**

Gofynnir i'r Ymgeisydd esbonio unrhyw newidiadau i'r Erthygl hon o ganlyniad i'r CRs a ph'un a yw'r cynlluniau a'r dogfennau a restrir yn y DCO drafft [CR3-008] yn cynrychioli'r rhestr gyflawn i'w hardystio. Bydd yr ExA yn ceisio safbwyntiau ynglŷn â ph'un a yw'r rhestr yn gyflawn ac, os na, pa ddogfennau ychwanegol y byddai angen eu cynnwys.

**8. Cydsyniadau, trwyddedau a chytundebau eraill**

Yng ngoleuni'r CRs a dderbyniwyd, gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddariad ar y trosolwg o gydsyniadau, trwyddedau a chytundebau eraill sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â'r Datblygiad Arfaethedig, fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn ISH2. Gofynnir i'r Ymgeisydd hefyd roi diweddariad ar gynnydd a graddfeydd amser ar gyfer cwblhau'r cyfryw gydsyniadau, trwyddedau a chytundebau eraill. Yna, bydd yr ExA yn gofyn cwestiynau, gan gynnwys gofyn am ddiweddariad ynglŷn ag unrhyw gytundeb(au) a geisir, gan gynnwys o dan adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel Cytundebau Perfformiad Cynllunio), gan gynnwys unrhyw Rwymedigaethau/ Cytundebau Adran 106 neu Gytundebau eraill, a'r graddfeydd amser ar gyfer cwblhau'r cyfryw ddogfennau'n derfynol.

**9. Adolygu materion a chamau gweithredu sy'n codi**

**10. Unrhyw fater arall a chau'r gwrandawiad**

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 92**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Agenda ar gyfer Gwrandawiad Caffael Gorfodol 2 (CAH2)**

Sylwer bod yr agenda ganlynol yn ddangosol ac y gallai gael ei diwygio gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) ar ddechrau'r sesiwn wrandawiad.

**AGENDA**

**1. Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ar gyfer y gwrandawiad**

**2. Gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddariad ar ei achos dros Gaffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP) yng ngoleuni ei Geisiadau i Wneud Newidiadau (CR) a dderbyniwyd (CR).**

Yng ngoleuni'r CRs a dderbyniwyd, caiff yr Ymgeisydd gymryd hyd at 10 munud i roi trosolwg o'r canlynol:

- ei ymagwedd gyffredinol at CA a TP yng nghyd-destun y profion perthnasol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG)[1];
- diben, strwythur a chynnwys y Llyfr Cyfeirio (BoR), y Datganiad o'r Rhesymau (SoR) a'r Datganiad Cyllid;
- y pwerau a geisir a'r achos cyffredinol o blaid eu caniatáu.

Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

**3. Ceisiadau i Wneud Newidiadau**

Yn unol â Rheoliad 15(2) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010, bydd yr ExA yn gwahodd:

- unrhyw Unigolyn yr Effeithir Arno a/neu Barti â Buddiant i wneud sylwadau llafar ar y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau ychwanegol dros dir yn orfodol a amlinellir yn CRs yr Ymgeisydd a dderbyniwyd; ac
- unrhyw Barti â Buddiant Ychwanegol i wneud sylwadau llafar ar faterion yn ymwneud â'r cynnig i gaffael tir/hawliau yn orfodol yn gyffredinol.

**4. Gwrthwynebiadau, materion a chytundebau gwirfoddol unigol**

Gwahoddir y partïon canlynol neu eu cynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, a hwythau'n Bartïon â Buddiant y mae'r cais hwn am Orchymyn Caniatâd Datblygu

[1] Deddf Cynllunio 2008, Canllawiau yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol, DCLG, mis Medi 2013.

(DCO) yn effeithio ar eu buddiannau tir, i wneud cyflwyniad llafar ynglŷn â thir o fewn eu rheolaeth sy'n destun CA/ TP arfaethedig.

Partïon â Buddiant nad ydynt wedi gwneud cyflwyniadau llafar yn flaenorol:

Yn dechrau gyda:

Turley ar ran Peel NRE - Lleiniau 1-01, 1-01a; 1-02; 1-03, 1-04, 1-05, 1-06, 1-06a-d (inc), 1-08, 1-09, 1-10, 1-11, 1-12, 1-13, 1-14, 1-15, 1-16, 1-17, 1-18, 1-19, 1a-01, 1a-02, 1a-03, 1a-04.

Mae'r ExA yn nodi gwrthwynebiad Peel NRE i'r cynnig presennol, fel y crynhoir isod:

- caffaeliad parhaol a chwantwm y tir sydd wedi'i gynnwys o fewn y coridor 24.4m hwn;
- bydd y caffaeliadau arfaethedig yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu Peel NRE i ddatblygu tir yn y dyfodol, nid yn unig yn ystod adeiladu'r Biblinell ond drwy gydol ei oes weithredol.

Deëllir hefyd fod trafodaethau'n parhau i geisio cytuno ar sefyllfa sy'n dderbyniol i'r ddau barti, ond ni ddatryswyd y mater hyd yma.

a) Bydd yr ExA yn gwahodd Peel NRE neu eu cynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Gallai'r ExA ofyn cwestiynau.

b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Gallai'r ExA ofyn cwestiynau.

Network Rail (NR) – Lleiniau 1-06b, 1-23; 9-21; 9-23, 9-24; 9-25; 14-24; 14-29; 17-12; 19-04 a 19-04c

Mae NR yn datgan eu bod yn gwrthwynebu'r pwerau a gynhwysir yn Erthyglau 19, 21, 22, 24, 26, 27, 28, 29, 31, 33, 34, 35 a 39 y DCO drafft sy'n awdurdodi'r Hyrwyddwr i gaffael hawliau mewn neu dros dir yn orfodol, neu ddefnyddio tir dros dro, sy'n ffurfio rhan o dir rheilffordd weithredol NR ac y mae NR yn dibynnu arno i gynnal ei ymgymeriad statudol.

a) Bydd yr ExA yn gwahodd NR neu eu cynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Gallai'r ExA ofyn cwestiynau.

b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Gallai'r ExA ofyn cwestiynau.

Gofynnir i Bartïon â Buddiant eraill cymwys sy'n dymuno siarad, ond nad ydynt wedi gwneud hynny'n flaenorol, a ydynt yn dymuno siarad.

Partïon â Buddiant a amlinellodd eu safbwynt ar CA/ TP yn CAH1 i roi diweddariad ar eu safbwynt presennol. Yn dechrau gyda'r canlynol:

Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC)

Cyngor Sir y Fflint (FCC)

Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd – Lleiniau 8-03 a 9-06

Asiantaeth yr Amgylchedd – Lleiniau 6-02; 6-03; 6-10; a 6-11

Encirc Ltd – Lleiniau 1-01, 1-01a; 1-02; 1-03, 1-06, 1-06a-d (yn gynwysedig), 1-20, 1-21, 1-22, 1a-01, 1a-02, 1a-03, 1a-04.

National Highways – Lleiniau 5-06, 5-09 a 7-05

Mae'r ExA yn nodi cyflwyniad National Highways erbyn Terfyn Amser 5, gan gynnwys y farn gyfreithiol a gyflwynwyd.

Carter Jonas ar ran Travelodge UK – Llain 19-06

Stephens Scown ar ran S ac C Oultram – Lleiniau 18-03 to 18-07, 18-10, 18-11, 18-13, 18-14, 18-16, 18-18 to 18-21, 18-25, 18-26, 19-04, 19-04a a 19-04b.

Unrhyw Bartïon eraill â Buddiant sy'n gymwys a allai ddymuno siarad.

Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Gallai'r ExA ofyn cwestiynau cyn neu ar ôl i'r Ymgeisydd ymateb.

**5. Diweddariad ar eitemau agenda CAH1, a restrir isod:**

- **Y BoR, SoR, Cynlluniau Tir, Ymholiadau Diwyd a Diweddariadau**

  - Diweddariad ar y BoR/ Atodlen CA

  Gofynnir i'r Ymgeisydd:

  - grynhoi'r cynnydd a wnaed ers CAH1, gan gynnwys cynnydd a ddisgwylir yn ystod gweddill yr Archwiliad, yn enwedig lle y gwrthwynebir caffael hawliau, ac i amlinellu lle nad yw wedi llwyddo i symud ymlaen â thrafodaethau â phartïon hysbys, gan gynnwys y camau a gymerwyd.

  - crynhoi'r camau i'w cymryd i amlygu unrhyw bartïon neu fuddiannau anhysbys yn ystod yr Archwiliad, os yw hyn wedi newid ers CAH1.

  - Ymholiadau diwyd

  - Gofynnir i'r Ymgeisydd roi diweddariad pellach ar ymholiadau diwyd ers CAH1, yn enwedig o ran ei ymagwedd at amlygu "Perchnogaethau Anhysbys".

- **Sut y bwriedir defnyddio'r tir, p'un a archwiliwyd dewisiadau amgen rhesymol a ph'un a yw'r hawliau a geisir yn gyfreithlon, yn gymesur ac yn angenrheidiol**

- Hyblygrwydd

- Mae dylunio manwl yn parhau a rhoddodd yr Ymgeisydd wybod am nifer o newidiadau i Derfynau'r Gorchymyn ers CAH1. Gofynnir i'r Ymgeisydd egluro pa gysylltiad a gynhaliwyd â phartïon yr effeithir arnynt, p'un a fydd hyn yn parhau drwy gydol gweddill yr Archwiliad a ph'un a ddisgwylir unrhyw geisiadau ychwanegol i wneud newidiadau.

- Ers CAH1, a yw ymateb yr Ymgeisydd ynglŷn â'r angen i sicrhau proses i ystyried hawliau dynol yn ystod y cam dylunio manwl wedi newid?

- **Buddiannau'r Goron, Ymgymerwyr Statudol, Tir Categori Arbennig, Iawndal, Cyllid a Materion Eraill**

  - Buddiannau'r Goron

  - A all yr Ymgeisydd roi diweddariad ynglŷn â Buddiannau'r Goron?

  - Tir Categori Arbennig – Llain 17-02. Gwaith draenio yn cynnwys agor ffos fach/ a.132 Deddf Cynllunio 2008.

Gallai'r ExA ofyn cwestiynau neu wahodd mwy o gyflwyniadau llafar mewn perthynas ag unrhyw un o'r pwyntiau bwled neu'r is-benawdau yn yr eitem agenda hon.

**8. Unrhyw faterion CA neu TP eraill**

- Cais am Gostau [REP6-052] – Gofynnir i'r Ymgeisydd wneud sylwadau ac amlinellu ei safbwynt terfynol ynglŷn â'r rhifau lleiniau a nodir yn yr hawliad.

- Os bydd digon o amser, ac yn ôl ei ddisgresiwn, gallai'r ExA wahodd cyflwyniadau llafar eraill ar faterion CA neu TP.

**9. Adolygu materion a chamau gweithredu sy'n codi**

**10. Unrhyw fater arall a chau'r gwrandawiad**

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 93**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Agenda ar gyfer Gwrandawiad Llawr Agored (OFH)**

Sylwer bod yr agenda ganlynol yn ddangosol ac y gallai gael ei diwygio gan yr Awdurdod Archwilio (ExA) ar ddechrau'r sesiwn wrandawiad.

**AGENDA**

1. **Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ar gyfer y gwrandawiad.**
2. **Diben y gwrandawiad.**
3. **Cadarnhau'r Partïon â Buddiant sydd wedi rhoi gwybod i'r ExA eu bod yn dymuno cael eu clywed yn yr OFH a'r drefn y byddant yn cael eu clywed.**
   - **Rhestr gyfredol o Bartïon â Buddiant sydd wedi rhoi gwybod i'r ExA eu bod yn dymuno gwneud cyflwyniad Llafar yn yr OFH:**
     - **Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd;**
     - **Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer**
       - **Y Cynghorydd S. Eardley;**
     - **National Highways;**
     - **Network Rail (Infrastructure) Ltd;**
     - **Peel NRE;**
4. **Cyflwyniadau llafar**
   - **Cyflwyniadau llafar Partïon â Buddiant sydd wedi rhoi gwybod eu bod yn dymuno cael eu clywed.**
   - **Cyflwyniadau llafar gan Bartïon eraill â Buddiant sy'n dymuno cael eu clywed, os oes angen.**
5. **Adolygu materion a chamau gweithredu sy'n codi.**
6. **Unrhyw fater arall a chau'r gwrandawiad.**